



Llyn Talygarn

# Teithiau Cerdded 54 a 55, Ystradowen

# Tro drwy Dir Ffiniol y Fro

**Er bod gan ben gogleddol y Fro'r un math o atyniadau ag ardaloedd ymhellach i'r de, mae'r tir ychydig yn uwch ac mae mwy o goed a llynnoedd. Da byw sy'n cael eu ffarmio ran fynychaf, felly ni fydd cymaint o berygl i gerddwyr gael eu gwahardd rhag croesi'r tir yn ystod misoedd yr haf oherwydd cnydau. Mae'r brif daith gerdded yn arwain drwy dir amaethyddol ffrwythlon, coed pinwydd a chollddail a thwyndir calchfaen agored. Mae hefyd yn mynd heibio i ddau dŷ hanesyddol a llyn prydferth ac o'r braidd yn cyffwrdd â chwr deheuol pellaf ardal lofaol De Cymru a fu unwaith mor bwysig. Mae un o'r teithiau cerdded byrrach yn mynd heibio i feithrinfa bysgod ffyniannus**

**Pellter** 7 milltir (y brif daith gerdded); 3 milltir (taith fer A); $3\frac{1}{2}$ milltir (taith fer B)

**Map** Explorer 151.

**Parcio** Wrth ymyl y ffordd yn Ystradowen. Ar wahân i hyn, nid oes llawer o le i barcio ar y daith

**Trafnidiaeth Gyhoeddus** Bysiau (E11) rhwng y Bont-faen a Thonysguboriau sy'n dod bob awr yn fwy neu lai ond nid oes bysiau ar y Sul.


**Bwyd a diod** Tafarn y 'White Lion' yn Ystradowen

**MAN CYCHWYN** Mae'r cyfeiriadau isod yn cychwyn wrth dafarn y 'White Lion' (Cyfeirnod Grid: GR 012777).


GRADDFA (YN FRAS):

1 cilomedr

1 filltir









## Y LLWYBR

Ⓢ Dilynwch y ffordd fach sy'n arwain o dafarn y White Lion heibio i Eglwys Sant Owen ❶ nes i chi gyrraedd gât mochyn ar eich ochr dde. Ewch drwyddi a heibio i gamfa sydd rhwng yr eglwys ar y dde a mwnt coediog ❷ ar y chwith. Ewch ymlaen (gwelwch reiliau ar eich ochr dde ar y dechrau) a cherddwch tuag at gamfa arall yng nghornel bellaf y cae. O'r fan honno, ewch i fyny'r rhiw tuag at Ash Hall ❸ ar y gorwel. Cerddwch o gwmpas yr adeilad hwnnw a fydd erbyn hyn ar eich ochr chwith, ac ewch ymhellach i fyny'r rhiw a thros ddwy gamfa nes i chi gyrraedd gât wrth ochr ffordd fach. Gwelwch Ash Cottage yn union ar y dde. Croeswch yr heol at gât a chamfa, ac ar ôl cyrraedd y cae nesaf, cerddwch i fyny'r rhiw unwaith eto gan wyro fymryn bach i'r chwith nes i chi ddod at gamfa arall. Ar ôl croesi honno, byddwch mewn tir calchfaen agored. Ewch ymlaen yn fwy neu lai i'r un cyfeiriad tuag at lwyn o gonwydd gan groesi camfa arall ar y ffordd. Ewch drwy'r coed o gamfa i gamfa a chroeswch gae cul tuag at gamfa arall sy'n arwain i ffordd fach. Trowch i'r chwith ac i'r dde'n fuan wedyn ac ewch i mewn i rodfa fferm. Ar ôl cerdded am ychydig, trowch i'r chwith, dringwch dros y gamfa a chroeswch y cae nesaf o gornel i gornel at y gornel dde a chamfa. Trowch i'r dde ar eich union yn y fan honno, a cherddwch wrth ochr clawdd ar eich ochr dde nes i chi gyrraedd gât sydd heb fod ymhell oddi wrth dŷ Ty'n y Tranch. (Os ydych am ddilyn taith fer A*, trowch i'r dde yn y fan honno a dilynwch y cyfeiriadau isod).

Os ydych yn dilyn y brif daith, ewch yn eich blaen gan groesi tair camfa, y naill ar ôl y llall, y tu ôl i'r tŷ. Wedyn ewch i lawr y rhiw ysgafn, gyda chlawdd y cae ar eich ochr chwith, at gamfa arall yng nghornel y cae. Croeswch honno, ewch i'r chwith ac ymlaen am ychydig, wedyn trowch i'r dde a dilynwch weddillion hen glawdd terfyn nes i chi gyrraedd heol wledig.

Trowch i'r chwith a dilynwch yr heol hon hyd at gyrion Llanhari. Byddwch yn croesi traffordd yr M4. Trowch i'r dde bron ar unwaith wedyn a chroeswch gamfa at ddarn o dir garw. Dilynwch y llwybr sy'n gyfochrog â'r M4 drwy lwyn drain duon a darn o dir agored a welodd effaith diwydiant yn y gorffennol. Daw'r llwybr yn fwy amlwg nawr wrth iddo arwain drwy ardal sy'n cael ei datblygu ar gyfer adeiladu tai. Byddwch yn dod allan ar yr hen ffordd rhwng Brynsadler a Llanhari sy'n segur erbyn hyn. Trowch i'r dde yn y fan honno, gan gerdded heibio i olion hen orsaf reilffordd Llanhari islaw, ar y chwith, nes i chi gyrraedd y briffordd bresennol. Trowch i'r dde ac i'r dde eto wrth ymyl The Elms, a cherddwch ar hyd llwybr bach sydd wedi'i farcio'n dda am ryw $\frac{1}{2}$ milltir (gan groesi'r M4 unwaith eto) nes i chi gyrraedd yr A4222 ger Talygarn. Byddwch yn mynd heibio i Eglwys Santes Ann ❹ ar y ffordd.

Wedi cyrraedd yr heol hon rhwng Pont-y-clun a'r Bont-faen, trowch i'r dde. Cerddwch ymlaen at y tŷ olaf ar y dde, yna croeswch i lwybr sydd wedi'i farcio'n heol breifat. Mae llwybr cyhoeddus ar draws y llwybr hwnnw. Dilynwch y llwybr am ryw draean milltir nes iddo fforchio. (Gwelwch Cot Farm ar y dde). Dilynwch y fforch ar y dde a cherddwch drwy'r goedwig ac o'r diwedd ar lan Llyn Talygarn am draean milltir arall nes i chi gyrraedd camfa. Trowch i'r dde er mwyn croesi argae'r llyn. (Mae nifer o arwyddion yn ardal y llyn sy'n dangos y mannau diddorol sydd ar agor i gerddwyr drwy ganiatâd y perchennog. Os ydych am weld Tŷ Talygarn ❺, gwnewch yn siŵr eich bod yn dilyn yr hawliau tramwy cyhoeddus). Dilynwch y llwybr amlwg hwn am ryw $\frac{1}{2}$ milltir arall nes i chi gyrraedd fferm Bwthyn y Ciper. Cerddwch ymlaen i'r un cyfeiriad drwy gatiau gan gadw clawdd y cae ar eich ochr chwith nes i chi gyrraedd camfa. Croeswch ddarn bach arall o gae at fwlch ac ewch ymlaen gan wyro i'r chwith ryw fymryn bach ar draws y cae nesaf nes i chi ddod at gamfa sy'n arwain i heol.

Trowch i'r dde, ac ar ôl cerdded am ryw 80 o lathenni, trowch i'r dde eto i gae arall gan groesi camfa. Cerddwch ar draws y cae at gamfa arall sy'n arwain i goedwig. Er bod y llwybr drwy'r coed wedi'i farcio'n glir, mae'n lleidiog mewn un man lle mae nant fach. Wrth i chi ddod allan o'r goedwig, gwelwch ddau lwybr arall wedi'u marcio'n 'swyddogol' a 'chaniataol'. Bydd y naill neu'r llall yn eich arwain i lwybr mwy llydan, a dylech wyro i'r chwith yn y fan honno. Dringwch dros gamfa i gae wedyn, yna cerddwch ymlaen gan gadw i'r ochr dde nes i chi gyrraedd camfa arall yn y gornel bellaf. Croeswch i gornel uchaf y cae nesaf, dringwch dros y camfeydd i gae hir arall a cherddwch ymlaen ar hyd ymyl dde'r cae fel o'r blaen. Ar ôl cerdded o dan res o beilonau, byddwch yn cyrraedd camfa arall yn y gornel bellaf. Trowch i'r dde a chyda'r clawdd ar eich ochr chwith erbyn hyn, cerddwch ymlaen at gamfa yr ochr draw. Ewch dros y gamfa honno ac ar draws llwybr amlwg yn fuan wedyn yna cerddwch ymlaen i bont drawstiau a chamfa arall. Croeswch y rheini hefyd, ac ewch ymlaen i'r un cyfeiriad (gyda ffens ar eich ochr dde) heibio i hen gamfa, nes i chi gyrraedd pont drawstiau a chamfa arall. Mae'r rhain yn arwain at y cae olaf ar y daith. Cerddwch i'r dde o amgylch clawdd terfyn dwy ochr y cae hwnnw. (Byddwch yn mynd heibio i'r llwybr troed sy'n cysylltu'r daith hon â thaith fer B*). O'r diwedd, byddwch yn cyrraedd y gamfa olaf sy'n arwain i heol fach. Trowch i'r dde yn y fan honno, a cherddwch ymlaen at yr heol ar ben y ffordd sydd ar stad dai 'Badgers' Brook'. Trowch i'r dde i'r brif heol ac yna i'r chwith er mwyn dod yn ôl i fan cychwyn y daith.

## LLEOEDD O DDIDDORDEB

### ❶ EGLWYS SANT OWAIN

Cafodd yr eglwys hon ei hadeiladu ym 1867 yn lle hen eglwys a fu ar y safle ers y drydedd ganrif ar ddeg. Mab un o frenhinoedd Morgannwg o'r ddeuddegfed ganrif oedd Owain, yn ôl pob tebyg. Mae gan yr eglwys gloch sy'n perthyn i'r ail ganrif ar bymtheg ac mae'r estyniad yn gweddu i'r dim i'r adeilad er iddo gael ei godi'n ddiweddar.

### ❷ Y MWNT

Mae'r nodwedd hon dros 800 mlwydd oed. Twmpath pridd 5 medr o uchder yw'r mwnt, sydd un ai heb ei gwblhau erioed neu wedi colli'r ffosydd a fu ganddo unwaith. Yn ôl pob tebyg, cafodd ei adeiladu gan Sant Quentin er mwyn amddiffyn tiriogaeth Tal-y-fan ac ni fu'n fawr o dro cyn i Gastell Tryfan ei ddisodli. Plannodd Daniel Owen (Ash Hall) goed ar y mwnt nid yn unig er mwyn gwella golwg y lle ond hefyd er mwyn tynnu sylw at ei statws mewn hen chwedloniaeth fel canolfan y derwyddon.

### ❸ ASH HALL

Cafodd y neuadd hon ei hadeiladu ar ddechrau'r ddeunawfed ganrif a Daniel Owen oedd ei pherchennog enwocaf. Ganwyd Owen yn Llanharan ac ymfudodd i Awstralia lle gwnaeth ei ffortiwn. Daeth yn ôl i Gymru wedyn a phrynodd y neuadd ym 1866. Ar ôl ei hadnewyddu, bu'n gweithredu fel sgweier Ystradowen i bob pwrpas am 30 mlynedd. Daeth yn gydberchennog ar yr Western Mail ac roedd hefyd yn helpu i ariannu'r rheilffordd rhwng y Bont-faen ac Aberddawan. Bu farw ym 1896 a chafodd ei gladdu yn y fynwent leol. Mae bwthyn cyfagos o'r enw Ash Cottage, sy'n hynafol iawn mewn mannau ac mae sôn bod ysbrydion caredig yn cerdded yr adeilad!

### ❹ EGLWYS SANTES ANN

Capel anwes oedd hwn a gafodd ei adfer ym 1687 gan Syr Leoline Jenkins a ddaeth yn adnabyddus oherwydd ei gysylltiad ag Ysgol y Bont-faen a Choleg yr Iesu Rhydychen. Cafodd yr eglwys ei hadeiladu ym 1887, gan George (G.T.) Clark (Talygarn) er cof am ei wraig Ann.

### ❺ TŶ A THIROEDD TAL-Y-GARN

Tan yn ddiweddar, nid oedd y tŷ hwn na'i diroedd na'i lyn wedi newid fawr ddim ers i George Clark eu creu gyntaf. Llundeiniwr amryddawn oedd Clark a enillodd fri haeddiannol mewn meysydd mor amrywiol â meddygaeth, adeiladu rheilffyrdd a'r diwydiannau haearn a glo. Roedd hefyd yn deithiwr o fri a daeth yn adnabyddus yn ddiweddarach yn ei fywyd fel hanesydd. Mae cryn dipyn o ddylanwad cyfandirol ar y defnyddiau a'r lluniau yn y tŷ a chafodd llu o blanhigion egsotig eu mewnforio hefyd a'u plannu yn y gerddi. Mae llawer o'r coed tramor gwreiddiol yn dal i ffynnu hyd heddiw. Cafodd y tŷ ei droi n gartref ymadfer ar gyfer glowyr yn ddiweddarach ac aeth i ddwylo'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol wedyn. Cafodd ei werthu i ddatblygwyr yn ddiweddar sydd bellach wedi cychwyn ar raglen o waith sydd er nad yw'n helaeth yn ddigon hynod. Perchennog lleol arall sy'n adfer y llyn ac yn ei gadw mewn cyflwr da.

### ❻ Y RHEILFFORDD RHWNG PONT-Y-CLUN A'R BONT-FAEN

Agorodd y llinell hon ym 1865 a daeth y Bont-faen o'r diwedd yn rhan o rwydwaith rheilffyrdd a oedd yn prysur dyfu. Yn anffodus collodd y cyfle i ddathlu ei chanmlwyddiant o drwch flewyn am i Beeching ei chau ym 1964.

## LLWYBR BYR A* - 3 milltir


Gadewch y prif lwybr wrth y fan a nodwyd ag A*. Ewch drwy'r glwyd ac ar draws y llwybr at gamfa. Cerddwch ymlaen i'r un cyfeiriad (i'r de) drwy ddau gae a chroeswch ddwy gamfa ddwbl. Gwyrwch i'r dde wrth yr ail gamfa a cherddwch tuag at dŷ a welwch y tu ôl i lwyn o goed nes i chi gyrraedd llwybr fferm. Gwyrwch i'r dde a cherddwch i lawr y rhiw ar hyd y llwybr hwn/rhodfa hon at heol. Mae taith fer B yn cychwyn yn y fan honno. (Gwelwch B* isod). Trowch i'r dde ac i'r chwith yn fuan wedyn wrth glwyd sydd wedi'i nodi â chyfeirbwynt. Croeswch y cae at gamfa yr ydych eisoes wedi'i dringo ar y daith draw, yna gwyrwch i'r chwith er mwyn osgoi darn o dir corsiog cyn troi i'r dde eto. Cerddwch ymlaen gan wyro ryw fymryn bach i'r dde nes i chi gyrraedd man lle mae'r tir yn dechrau disgyn. Ewch ymlaen ymhellach at gamfa sydd newydd ddod i'r golwg. Croeswch y cae nesaf gan anelu am gamfa sydd ychydig bach i'r dde i dŷ to coch. Byddwch wedi cyrraedd heol wedyn a dylech groesi honno wrth gamfa arall a mynd i'r cae gyferbyn.

Cerddwch ymlaen i'r un cyfeiriad, gyda Lawn Cottage ar eich ochr chwith nes i chi gyrraedd rhes o goed. Trowch i'r dde yn y fan honno, gan gadw'r coed ar eich ochr chwith. Croeswch gamfa a cherddwch drwy ddarn o dir prysg at lwybr amlwg. Dilynwch y llwybr hwnnw i lawr y rhiw nes i chi gyrraedd llwybr mwy o faint a fydd yn lleidiog ar adegau. Ar ôl cerdded i lawr y rhiw am ryw ¹/4 milltir, byddwch yn cyrraedd camfa risiau ar y chwith. Dringwch honno, a cherddwch ymlaen at waelod cornel y cae gyferbyn a gwelwch eich bod wrth ymyl heol wledig. Ar ôl dringo camfa neu ddwy a chroesi cae arall, byddwch yn cyrraedd y mwnt coediog, Eglwys Sant Owain a man cychwyn y daith.


*Eglwys Sant Owain a'r Mwnt*

*Ffotograff (H) G.Woosnam*

## LLEOLIAD Y DAITH GERDDED MEWN PERTHYNAS Â LLWYBR TREFTADAETH Y MILENIWM VALEWAYS




Mae Llwybr Treftadaeth y Mileniwm Valeways yn ymestyn am fwy na 100 cilomedr ac yn cwmpasu dros 6000 o flynyddoedd o hanes. Bydd yn ymlwybro drwy nifer o dirweddau prydferth iawn. O ben gogleddol y llwybr, mae golygfeydd ar draws holl ardal Blaenau Morgannwg, ac yn y de bydd y llwybr yn dilyn arfordir clogwynog trawiadol.

Mae'r Llwybr yn ymrannu'n 16 o ddarnau sy'n hawdd eu dilyn a gellwch gerdded pob un ohonynt mewn ychydig o oriau'n unig. Mae'r tir o gwmpas yn amrywiol, yn drawiadol yn aml ac yn llawn olion hanesyddol.

Os nad ydych erioed wedi ymweld â'r rhan hon o Gymru, byddwch wrth eich bodd yn cerdded drwy'r tiroedd isel ffrwythlon sy'n ffinio â'r Arfordir Treftadaeth godidog a'i draethau hardd. Mae'r llwybr yn cynnwys llawer o nodweddion hanesyddol diddorol dros ben sy'n amrywio o siambrau claddu cynhanesyddol i gestyll, eglwysi a phlastai mawreddog.

Mae Valeways wedi cyhoeddi teithlyfr Llwybr Treftadaeth y Mileniwm. Mae'r llyfr lliwgar hwn yn disgrifio 16 rhan y daith gerdded ac yn cael ei gyflwyno mewn pecyn sydd hefyd yn cynnwys 16 o fapiau A3 cyfatebol. Cewch ei brynu oddi wrth Valeways am £8.49 sy'n cynnwys cludiant a phacio.

## LLWYBR BYR B* - 3¹/2 milltir

Gadewch lwybr byr A ar waelod y rhodfa drwy droi i'r chwith. Cerddwch ar hyd yr heol at gyffordd 'T'. Dringwch y gamfa yn y clawdd o'ch blaen wedyn a cherddwch i lawr y rhiw i'r un cyfeiriad a thrwy'r cae er mwyn croesi rhodfa fferm Crofta. Gwelwch y tŷ ar eich ochr chwith. (Gwnewch yn siŵr eich bod yn dilyn yr Hawl Dramwy). Croeswch y gamfa garreg a daliwch i gerdded i lawr y rhiw gan groesi dau gae a dwy gamfa arall nes i chi gyrraedd y brif heol. Croeswch yr heol honno wrth y fynedfa i feithrinfa bysgod Seven Oaks. Dringwch y gamfa yn y fan honno ac ewch i lawr y rhiw ac i'r chwith i bwll cyflenwi nes i chi gyrraedd camfa ddwbl a phont drawstiau. Ar ôl croesi'r rheiny, ewch i'r chwith yn sydyn a cherddwch ar hyd clawdd terfyn y cae ac ar draws arglawdd y rheilffordd rhwng Pont-y-clun a'r Bont-faen sydd wedi'i chau ers blynyddoedd ❻. Gwyrwch i'r chwith ar ongl letraws gan ddilyn llwybr troed caniataol i bompren newydd. Croeswch honno, trowch i'r dde a cherddwch ar hyd dwy ochr y cae. Ewch ati'n awr i ddilyn y cyfarwyddiadau ar ddiwedd y brif daith.


*Ash Hall*

*Ffotograff (H) Cyngor Bro Morgannwg*

## NODWEDDION Y DAITH GERDDED

- **Eglwys Sant Owain**
- **Y Mwnt**
- **Eglwys Santes Ann**
- **Ash House**
- **Tŷ a thiroedd Talygarn**
- **Y rheilffordd rhwng Pont-y-Clun a'r Bont-faen**

Afon Elái


*Ystradowen o'r gogledd*

*Ffotograff (H) Cyngor Bro Morgannwg*

## DILYNWCH Y GÔD CEFN GWLAD

- Byddwch yn ddiogel, cynlluniwch o flaen llaw a dilynwch unrhyw arwyddion
- Gadewch glwydi ac eiddo fel rydych chi'n eu cael nhw
- Ewch â'ch sbwriel gartref, a gofalwch warchod bywyd gwyllt
- Cadwch eich ci dan reolaeth dynn
- Byddwch yn ystyriol o bobl eraill

make tracks with
**Valeways**

Elusen gofrestredig yw Valeways sy'n cydweithio â chymunedau lleol er mwyn ailagor hen lwybrau a chreu rhwydwaith o deithiau cerdded cylch difyr ar draws Bro Morgannwg sy'n cysylltu trefi a phentrefi â'r wlad o'u hamgylch a mannau o ddiddordeb. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r holl wirfoddolwyr a roddodd yn hael o'u hamser er mwyn darparu'r daith gerdded hon i chi ei mwynhau.

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales


**Partneriaeth Valeways** - Diolch o galon i Gyngor Bro Morgannwg a Chyngor Cefn Gwlad Cymru am barhau i'n cefnogi.

Cefnogwyd gan
Supported by

CRONFA LOTERI FAWR
BIG LOTTERY FUND

enfys

Environment Wales / Amgylchedd Cymru

cerdded llwybr iechyd
walking the way to health



Valeways, Uned 7, Canolfan Mentrau Cymunedol y Barri, Heol Skomer, Y Barri CF62 9DA

Ffôn/ffacs: 01446 749000
E-bost: info@valeways.org.uk
Gwefan: http//www.valeways.org.uk



Elusen Gofrestredig Rhif 1062031 Cwmni Cofrestredig Rhif 333088


*Teithiau Cerdded 54 & 55, Ystradowen*

# Tro drwy Dir Ffiniol y Fro

Pellter: 7 milltir (teithiau byrrach: 3.5 & 3 milltir)


*Pompren i'r dwyrain i Ystradowen*

*Ffotograff (H) Ray Price*

make tracks with
**Valeways**